# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023

Amser: 09.00 - 11.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13402

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AS<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Elaina Chamberlain, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Lisa James, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Angharad Era (Dirprwy Glerc)<br>Rhys Jones (Swyddog)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Luke Fletcher AS i'r Pwyllgor, a diolchodd i Mabon ap Gwynfor am ei gyfraniadau amhrisiadwy i'r Pwyllgor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

## 2 Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Elaina Chamberlain, Pennaeth Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol

Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol

2.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ddarparu nodiadau ar y gyfraith achosion sy'n berthnasol i gynghorwyr yn datblygu "croen mwy trwchus" oherwydd aflonyddu.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip - Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr

3.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.2 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

3.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.3 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Lywodraeth y DU - Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Rhentwyr (Diwygio).**

3.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Ardrethu Annomestig**

3.4a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.5 Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol**

3.5a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

**3.6 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Yr amserlen ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-24**

3.6a Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref

5.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd ar ei flaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref 2023.

## 6 Y Sector Rhentu Preifat - dull gweithredu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull gweithredu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## 7 Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol - Trafod y dystiolaeth a'r prif faterion

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.